TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD Y PENDERFYNIAD	14 Tachwedd, 2017
DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD	15 Tachwedd, 2017
DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd.	22 Tachwedd 2017

ENW A THEITL YR AELOD CABINET

Cyng. Gareth Wyn Griffith

Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol

PWNC

Dirwyon Gorfodaeth Stryd ar gyfer 2017/18

PENDERFYNIAD –

Cymeradwyo dirwyon Gorfodaeth Stryd (gweler yr atodiad) ar gyfer 2017/18 ac i gychwyn 1 Ionawr, 2018.

RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –

Gweler yr adroddiad atodol

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Dim

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd, adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodol.

TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG

Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet :	Cyng. Gareth Wyn Griffith Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol
Enw a theitl Awdur yr Adroddiad :	Gwyn Morris Jones Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol
Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad :	14 Tachwedd, 2017
Llofnod yr Aelod/au Cabinet :	

Pwnc : Dirwyon Gorfodaeth Stryd ar gyfer 2017/18

Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :

Cymeradwyo dirwyon Gorfodaeth Stryd (gweler yr atodiad) ar gyfer 2017/18 ac i gychwyn 1 Ionawr, 2018.

Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :

Mae'n amserol i adolygu'r dirwyon hyn gan fod y Cyngor yn bwriadu treialu defnydd o gwmni preifat i gynorthwyo mewn dirwyo troseddwyr amgylcheddol ac mae angen cysoni'r dirwyon hyn.

Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :

Nid yw y rhan helaethaf o'r dirwyon presennol wedi newid ers sefydlu'r Uned Gorfodaeth Stryd yn 2008 ac mae'r dirwyon argymhellir yn fwy cyson a rhai osodi'r gan siroedd eraill Gogledd Cymru. Mae'n debygol bydd y dirwyon uwch yn gymorth i atal troseddu amgylcheddol ar ein strydoedd a mannau agored. Bydd y disgownt ar dalu'n brydlon yn parhau i fod yn gymhelliant.

Mae lefel y dirwyon yn cyd-fynd a'r hyn argymhellir yng Nghyfarwyddyd Llywodraeth Cynulliad Cymru (dyddiedig Mawrth, 2017) ar Hysbysiadau Cosb Benodedig.

Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :

Dim.

Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :

Prif Weithredwr

Dim sylwadau i'w cynnwys ar y mater.

Prif Swyddog Cyllid

Wedi i mi dderbyn eglurhad o'r bwriad, rwy'n gefnogol i'r lefelau argymhellir ar gyfer y dirwyon hyn.

Swyddog Monitro

Yn y darpariaethau a restrir caniateir i'r Awdurdod osod cosb penodedig ar gyfer y troseddau yn hytrach na dibynnu ar y swm statudol. Dim sylwadau pellach o safbwynt Priodoldeb.

Aelod/au Lleol

Ddim yn berthnasol.

Atodiad

Hysbysiadau Cosbau Penodedig	Dirwy 2016/17	Dirwy 2017/18 (o 1/1/2018)
A - Gwaredu sbwriel (Adran 87/88 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990)		
Swm y ddirwy os y'i telir o fewn 10 diwrnod	£50.00	£75.00
Cyfanswm y ddirwy yn llawn	£75.00	£100.00
B - Methu â chydymffurfio â Rhybudd Gwarchod y Gymuned (Ddeddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014)		
Swm y ddirwy os y'i telir o fewn 10 diwrnod	-	£75.00
Cyfanswm y ddirwy yn llawn	-	£100.00
C - Tipio anghyfreithlon ar raddfa fach (Rheoliadau Dyddodi Gwastraff Heb Awdurdod (Cosbau Penodedig)(Cymru) 2017)		
Swm y ddirwy os y'i telir o fewn 10 diwrnod	-	*£120-£400
Cyfanswm y ddirwy yn llawn	-	*£150-£400
D - Methu â chyflwyno dogfennau gwastraff (Adran 34(5) a Rheoliadau a wnaed odditani 34(6)/34A Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990)		
Swm y ddirwy os y'i telir o fewn 10 diwrnod	£180.00	£180.00
Cyfanswm y ddirwy yn llawn	£300.00	£300.00
E - Methu â chyflwyno caniatâd i gludo gwastraff (Adran 5/5B Deddf Rheoli Llygredd (Diwygio) 1989)		
Swm y ddirwy os y'i telir o fewn 10 diwrnod	£180.00	£180.00
Cyfanswm y ddirwy yn llawn	£300.00	£300.00
F - Dosbarthu deunydd printiedig am ddim heb ganiatâd (Atodlen 4A, paragraffau 1(1) a 7 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990)		
Swm y ddirwy os y'i telir o fewn 10 diwrnod	£50.00	£75.00
Cyfanswm y ddirwy yn llawn	£75.00	£100.00
G - Methu â chydymffurfio â hysbysiad cynwysyddion gwastraff (Adran 46/47/47ZA/47ZB Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990)		
Swm y ddirwy os y'i telir o fewn 10 diwrnod	£60.00	£75.00
Cyfanswm y ddirwy yn llawn	£100.00	£100.00
H, I, J - Methu cydymffurfio a Gorchymyn Rheoli Cwn Cyngor Gwynedd 2013 (Baeddu Tir gan Gwn, Gwahardd Cwn, Cwn ar Denyn drwy Gyfarwyddyd)		
Swm y ddirwy os y'i telir o fewn 10 diwrnod	£60.00	£75.00
Cyfanswm y ddirwy yn llawn	£100.00	£100.00
K - Am graffiti, gosod posteri'n anghyfreithlon, ac anharddu eraill (Adran 43a-b Adran 47 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003)		
Swm y ddirwy os y'i telir o fewn 10 diwrnod	£50.00	£75.00
Cyfanswm y ddirwy yn llawn	£75.00	£100.00

* Yn disgwyl penderfyniad ar swm y gosb o fewn yr amrediad hon